# Disgrifiad Rôl Gwirfoddoli:  Gyrrwr

**Pwrpas y rôl**

Gyrru faniau FareShare Cymru i gasglu a dosbarthu bwyd yn ôl cyfarwyddiadau'r cydlynydd shifft, yn unol â deddfwriaethau diogelwch bwyd a Rheolau'r Ffordd Fawr.

**Pam mae'ch angen chi:**

Mae'r rôl yma yn un hanfodol bwysig yng ngwaith FareShare Cymru, gan sicrhau bod bwyd yn cael ei ddosbarthu'n ddiogel i'n Haelodau Bwyd Cymunedol neu'n cael ei gasglu gan ein darparwyr bwyd.

**Beth fydda i'n ei wneud?**

- Gyrru faniau'n ofalus i gasglu a dosbarthu bwyd
- Cynrychioli FareShare Cymru mewn modd cwrtais a phroffesiynol ar bob adeg
- Cwblhau gwaith papur perthnasol
- Cynllunio teithiau, trefnu bwyd, pigo archebion, llwytho a dadlwytho
- Cynnal gwiriadau rheolaidd ar y faniau, cymryd cyfrifoldeb am y faniau yn ystod y dydd ac adrodd am ddamweiniau neu ddifrod i'r fan neu gerbydau eraill
- Cynorthwyo gyda gwaith cynnal a chadw'r faniau gan gynnwys glanhau.

**Yr hyn rydyn ni ei angen gennych chi :**

- Rhaid ichi fod o leiaf 25 mlwydd oed, gyda thrwydded yrru lân, lawn â llai na chwe phwynt arni a dim gwaharddiadau blaenorol.  Yn fodlon ymgymryd ag asesiad sgiliau gyrru a hyfforddiant
- Yn gallu darparu crynodeb trwydded yrru bob chwe mis
- Yn hyderus i yrru fan maint canolig (fe fydd yna hyfforddiant)
- Yn dda yn darllen map a/ neu'n gallu defnyddio system lywio â lloeren
- Positif a chyfeillgar, yn gallu rhyngweithio'n dda gyda phobl wahanol
- Brwdfrydig am fynd i'r afael â gwastraff bwyd a/ neu dlodi bwyd
- Yn gallu ymgymryd â thasgau corfforol gan gynnwys codi a llwytho
- Yn dda gyda rhifau, adnabod gwahanol fwydydd, ysgrifennu'n glir
- Yn gallu gweithio'n effeithlon a defnyddio blaengaredd mewn amgylchedd o waith cyflym a phrysur
- Gweithio'n dda fel rhan o dîm  ac yn annibynnol
- Yn gallu dilyn polisïau a gweithdrefnau FareShare Cymru
- Yn hyblyg - efallai bydd yna gyfnodau pan ofynnwn ichi helpu gyda phrosiectau / tasgau eraill

**Beth gaf i allan ohono?**

- Cefnogaeth a goruchwyliaeth gan Arweinydd y Shifft a'r Cydlynydd Gwirfoddoli a Chyflogadwyedd
- Cyfnod sefydlu a hyfforddiant ar gyfer y rôl, gan gynnwys diogelwch bwyd
- Costau teithio o fewn rheswm, a chinio pan ar gael
- Lle difyr, hwyl a chyfeillgar i wirfoddoli
- Y cyfle i ymgymryd â heriau newydd a chynyddu cyflogadwyedd
- Geirda i'r sawl sy'n ymgymryd yn foddhaol â chyfnod o 3 mis o leiaf
- Y cyfle i gefnogi achos arbennig a rhoi rhywbeth yn ôl i'ch cymuned